CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau Cysylltiedig: Canllaw byr i gyflenwyr

Arweiniad technegol i gyflenwyr.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 16 Medi 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 16 Medi 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/deddf-caffael-2023-a-rheoliadau-cysylltiedig-canllaw-byr-i-gyflenwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Camau allweddol ar gyfer cyflenwyr

## Gwybodaeth allweddol ar gyfer cyflenwyr



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/deddf-caffael-2023-a-rheoliadau-cysylltiedig-canllaw-byr-i-gyflenwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae cyfraith caffael cyhoeddus yn newid yn dilyn cyflwyno Deddf Caffael 2023 a'r Rheoliadau cysylltiedig newydd y bwriedir iddynt fod yn weithredol ar 24 Chwefror 2025.

Os ydych yn fusnes sy'n cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, mae angen i chi wybod am y newidiadau hyn a'n cynlluniau i baratoi rhanddeiliaid i'w rhoi ar waith.

Bydd y darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth yn trawsnewid y ffordd y mae awdurdodau contractio Cymru yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith, gan ddod ag ystod o fuddion i gyflenwyr, gan gynnwys:

- **Platfform digidol canolog**: Bydd cyflenwyr yn gallu cofrestru a storio eu manylion fel y gellir eu defnyddio ar gyfer cynigion lluosog.
- **Gwelededd cynlluniau caffael**: Bydd gwell mesurau tryloywder yn caniatáu i gyflenwyr weld hysbysiadau caffael awdurdodau contractio Cymru ar GwerthwchiGymru a'r platfform digidol canolog, gan gynnwys piblinellau o gyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer contractau dros £2m. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i gyflenwyr baratoi ar gyfer darparu, naill ai fel prif gontractwyr, aelodau o gonsortia neu  is-gontractwyr yn y gadwyn gyflenwi.
- **Prosesau symlach ar gyfer cyflwyno cynigion**: Bydd prosesau symlach yn ei gwneud hi'n haws i gyflenwyr gyflwyno cynigion, trafod a gweithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- **Gweithdrefnau hyblyg**: Bydd y weithdrefn Hyblyg Gystadleuol newydd yn caniatáu i awdurdodau contractio Cymru ddylunio eu proses gaffael eu hunain, sy'n arbennig o fuddiol ar gyfer datrysiadau cymhleth, uwch-dechnolegol neu arloesol.
- **Fframweithiau masnachol hyblyg**: Mae'r fframweithiau agored newydd yn fwy hyblyg felly nid yw darpar gyflenwyr yn cael eu cau allan am gyfnodau hir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/deddf-caffael-2023-a-rheoliadau-cysylltiedig-canllaw-byr-i-gyflenwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- **Dyletswydd i ystyried BBaChau**: Bydd dyletswydd ar awdurdodau contractio Cymru i ystyried y rhwystrau sy'n wynebu BBaChau ac ystyried sut y gellir eu goresgyn yn helpu busnesau llai i gystadlu am fwy o gontractau cyhoeddus.
- **Talu'n brydlon**: Bydd darpariaethau cryfach ar gyfer talu'n brydlon ledled y gadwyn gyflenwi yn galluogi BBaChau i elwa ar delerau talu 30 diwrnod ar ystod ehangach o gontractau sector cyhoeddus.

Bydd y newidiadau hyn yn ysgogi arloesedd, yn cyflawni canlyniadau gwell ac yn ymgorffori tryloywder drwy gydol y cylch oes masnachol, fel y gall pawb gael mynediad at ddata caffael a gweld sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

Er nad yw'r Ddeddf Caffael yn llywodraethu cyflenwyr yn uniongyrchol mewn gwirionedd, ei nod yw ei gwneud yn haws i chi wneud busnes gyda'r sectorau cyhoeddus a chyfleustodau, felly mae angen i chi ddeall beth mae'n ei olygu i'ch sefydliad.

Rydym yn annog pob cyflenwr i edrych ar y gyfres o fideos hyfforddi byr '**Rhannu Gwybodaeth**', sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer cyflenwyr, gan gynnwys BBaChau a Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol.

## Camau allweddol ar gyfer cyflenwyr

- **Cofrestru**: Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru ar y platfform digidol canolog unwaith y bydd hwn ar gael i gael gafael ar eich ID cyflenwr unigryw ac i weld yr holl Hysbysiadau a gyhoeddir o dan y Ddeddf Caffael.
- **Gwybodaeth Graidd**: Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau gwybodaeth graidd y cyflenwr ar y platfform digidol canolog os ydych yn dymuno tendro am gontractau sector cyhoeddus.
- **Telerau talu**: Dylech fod yn ymwybodol o'r telerau talu 30 diwrnod sydd ymhlyg ym mhob "is-gontract cyhoeddus".

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/deddf-caffael-2023-a-rheoliadau-cysylltiedig-canllaw-byr-i-gyflenwyr-html**
i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Gwybodaeth allweddol ar gyfer cyflenwyr

- **Rheoli Perfformiad**: Bydd yn ofynnol i awdurdodau contractio Cymru osod Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer contractau dros £5m a chyhoeddi perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn.
- **Rhagwaharddiad a gwaharddiad**: Bydd rhestr rhagwaharddiad yn bodoli. Bydd cyflenwyr sydd i'w cofnodi ar y rhestr yn cael hysbysiad yn gyntaf. Gall cyflenwr wneud cais i gael ei dynnu o'r rhestr ar unrhyw adeg.

Byddwn yn parhau i ychwanegu deunydd at ein **tudalen LLYW.CYMRU** a rhannu adnoddau gyda'n rhwydwaith o bartïon â buddiant wrth i ni symud tuag at fynd yn fyw. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y Ddeddf Caffael neu'r rheoliadau cysylltiedig, e-bostiwch: **ProcurementReformTeam@llyw.cymru**.

Mae adnoddau mwy cyffredinol i helpu cyflenwyr gyda'r broses dendro a sut i gael y gorau o **wefan GwerthwchiGymru** hefyd ar gael yma.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/deddf-caffael-2023-a-rheoliadau-cysylltiedig-canllaw-byr-i-gyflenwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.